**JOANNA HARRIS** **07123 456789 | jharris@hotmail.com | LinkedIn**

Rwy'n fyfyriwr Peirianneg Sifil blwyddyn olaf profiadol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae gen i wybodaeth ddamcaniaethol a chymhwysol ym maes trosglwyddo a dosbarthu, cynhyrchu pŵer, ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear. Mae gen i brofiad diamheuol o weithio'n rhan o dîm amlddisgyblaethol a chyfathrebu â chleientiaid. Rwy'n uchelgeisiol ac yn llawn cymhelliant i weithio ar brosiectau ynni ar raddfa fawr, yn creu dyluniadau peirianneg pen blaen (FEED) a dyluniadau manwl o brosiectau ynni.

## PROFIAD PERTHNASOL

**Lleoliad Peirianneg Drydanol,** *XYZ Energy Solutions* 2023 – 2024

- Helpu i baratoi dyluniadau trydanol manwl ar gyfer systemau trosglwyddo a dosbarthu, cyfleusterau cynhyrchu pŵer, prosiectau ynni adnewyddadwy, a gweithfeydd ynni niwclear gan ddefnyddio meddalwedd megis AutoCAD, ETAP, a PSS/E.
- Cefnogi rheolwyr prosiect i gynllunio, amserlennu a chydlynu gweithgareddau'r prosiect. Helpu i baratoi dogfennau ar gyfer y prosiect, gan gynnwys adroddiadau, cynigion a chyflwyniadau.
- Cymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd ac archwiliadau o safleoedd i fonitro datblygiad y gwaith adeiladu a sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau dylunio, safonau'r diwydiant, a rheoliadau diogelwch.
- Casglu a dadansoddi data i gefnogi astudiaethau peirianneg a phenderfyniadau dylunio, gan gynnwys dadansoddi llif llwyth, astudiaethau diffygion, ac asesiadau dibynadwyedd.
- Gweithio ar y cyd â thimau traws-swyddogaethol, gan gynnwys peirianwyr mecanyddol, peirianwyr sifil, a chontractwyr, i gynnig atebion ynni integredig.
- Cynnal ymchwil ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac arferion gorau ym maes trosglwyddo a dosbarthu, cynhyrchu pŵer, ynni adnewyddadwy, ac ynni niwclear i gyfrannu at fentrau gwelliant parhaus.

## ADDYSG

**BEng Peirianneg Drydanol,** *Prifysgol Caerdydd* 2021 – 2025

- **Dadansoddi Systemau Pŵer,** 68%: Wedi ennill gwybodaeth gymhwysol ym maes systemau cynhyrchu pŵer, trosglwyddo a dosbarthu. Gan gynnwys dadansoddi llif llwyth, dadansoddi diffygion, ac astudiaethau sefydlogrwydd.
- **Peiriannau a Gyriannau Trydanol,** 65%: Wedi ennill gwybodaeth sylfaenol am beiriannau trydanol, gan gynnwys trawsnewidyddion, generaduron, a moduron, sut i reoli gyriannau trydanol a sut i'w defnyddio.
- **Systemau Rheoli**, 63%: Wedi ennill gwybodaeth ddamcaniaethol a chymhwysol o systemau rheoli ym maes peirianneg, gan gynnwys rheoli adborth, sefydlogrwydd, a dylunio systemau.
- **Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy,** 68%: Wedi cael trosolwg o wahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys dylunio a dadansoddi systemau ynni adnewyddadwy.
- **Electroneg Pŵer a Gyriannau,** 66%: Wedi dylunio trawsnewidwyr a gyriannau electronig pŵer a defnyddio gwybodaeth amdanyn nhw, gan gynnwys eu hintegreiddio â ffynonellau ynni adnewyddadwy.

**Safon Uwch:** Mathemateg Bellach A, Ffiseg A, Addysg Gorfforol B, *Chweched Dosbarth Caerdydd* 2019 - 2021

**TGAU:** 11 x 9 - 4, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth, *Ysgol Uwchradd Caerdydd*
2014 – 2019

## PROFIADAU ERAILL

**Gweinydd bar**, *Cosy Club* 2021 - o hyd

- Hyfedredd wrth baratoi ystod amrywiol o ddiodydd, gan dynnu ar wybodaeth helaeth ynghylch y cyfuniadau o gynhwysion sydd eu hangen.
- Cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid mewn bar prysur dros ben a datrys heriau annisgwyl a gododd yn ystod oriau prysur mewn modd effeithiol, gan ddangos fy ystwythder a'm gallu i wneud penderfyniadau'n gyflym.
- Sicrhau glendid a chadw trefn y tu ôl i'r bar, gan gadw at safonau glanweithdra a phrotocolau diogelwch i gynnal amgylchedd hylan.

**Wythnos Gwirfoddoli Llysgenhadon STEM,** *STEM Learning*
Chwefror 2023

- Cyflwyno gweithdai rhyngweithiol ar amryw bynciau ym maes STEM i fwy na 5000 o fyfyrwyr mewn gwahanol ysgolion uwchradd a cholegau.
- Cynnig ysbrydoliaeth a chyd-destun yn y byd go iawn i ddysgwyr ifanc drwy gysylltu pynciau STEM â byd gwaith, gan ennyn brwdfrydedd a diddordeb ym meysydd STEM.
- Defnyddio hyfforddiant a chymorth a gafodd eu darparu gan Lysgenhadon STEM i gynnig ystod o weithgareddau yn hyderus i hybu myfyrwyr i ystyried gyrfaoedd ym maes STEM.

**Atgyweiriwr Gwirfoddol,** *Caffi Trwsio*
2022 – 2023

- Cyfrannu at yr economi gylchol a chynaliadwyedd amgylcheddol drwy atgyweirio ac adfer eitemau sydd wedi torri yn rhad ac am ddim, eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi a hyrwyddo diwylliant o ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Cydweithio â thîm o wirfoddolwyr, ac wedi rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd i gynnig gwasanaethau atgyweirio cyfeillgar ac effeithlon, gan feithrin ymdeimlad o stiwardiaeth gymunedol ac amgylcheddol.
- Addysgu ymwelwyr am y buddion y mae atgyweirio yn eu cael ar yr amgylchedd a'u hannog i ystyried opsiynau atgyweirio cyn troi at waredu, hyrwyddo diwylliant o ailddefnyddio a chadw adnoddau.

## AELODAETH BROFFESIYNOL

**Aelod sy'n Fyfyriwr**, *Sefydliad Peirianwyr Trydanol ac Electroneg (IEEE)* 2021 - o hyd

- Mynediad at ystod o adnoddau technegol, gan gynnwys Llyfrgell Ddigidol IEEE Xplore a gweminarau addysgol.

## DIDDORDEBAU

Rwy’n aelod o Gymdeithas Syrffio Prifysgol Caerdydd, lle rwy’n cymryd rhan yn rheolaidd mewn teithiau a digwyddiadau syrffio, gan ganiatáu i mi ddatblygu fy sgiliau gweithio’n rhan o dîm a chyfathrebu. Mae bod yn rhan o'r gymdeithas yn golygu bod yn rhaid i mi reoli fy llwyth gwaith yn effeithiol, gan sicrhau fy mod yn drefnus a chadw at derfynau amser fel y galla i gymryd seibiant ar brynhawn dydd Mercher ac ar benwythnosau i syrffio arfordir Cymru.